Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw **Alan Watkin** Cwmni/Sefydliad **Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant, Cyngor Sir Wrecsam**

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Mae'r ddarpariaeth bresennol, tra'n cwrdd mewn ffordd gyfyngedig gyda'r angen sylfaenol am raglenni Cymraeg i blant, yn annigonol.

Rydych chi'n gywir wrth ddatgan eich bod yn colli cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau i lawer iawn o blant a phobl ifainc drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn eich sylw bod y ffordd y mae plant a phobol ifainc yn defnyddio cyfryngau clywedol wedi newid yn ddirfawr a'i fod yn allweddol i S4C gadw fyny gyda'r newidiadau hyn os yw am gwrdd â'r gofyn.

2. **A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?**

Does gyda ni mo'r wybodaeth angenrheidiol i gynnig sylw.

3. **A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?**

Mentrau Iaith, papurau newydd sy'n rhoi sylw i faterion Cymreig neu'n cynnwys erthyglau Cymraeg, neu sydd yn gyfan gwbl yn yr iaith Gymraeg.

4. **A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?**

Mae'r ffaith eich bod yn cydnabod bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer yr arddegau i'w llongyfarch, yn enwedig o gofio ffigurau cyfrifiad 2001 sy'n dangos fod 41% o boblogaeth Cymru rhwng 5 a 15 oed yn siarad Cymraeg.

Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant oed cyn-ysgol gan y byddai llawer o rieni yn croesawu rhaglen Gymraeg ben bore. Mae cynifer o blant heddiw wedi dod i arfer gyda gwylio teledu cyn brecwast a chyn mynd i'r ysgol. Dyw cynnig y ddarpariaeth hon yn ystod y gwyliau yn unig ddim yn ddigonol y dyddie 'ma.

Mae'n dda hefyd eich bod wedi cydnabod yr anghenion gwahanol iawn sydd gan blant oed cyn ysgol, plant hyn a'r arddegau a'ch bod yn ystyried darparu rhaglenni penodol at bob oed. Byddai'r oriau a gynigir yn ateb y gofynion gwahanol hyn.

5. **Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?**

Ar gyfer plant hyn a'r arddegau pwyslais cryf ar wneud Cymru a'r iaith Gymraeg yn 'cool' ac yn bethau i fod yn falch ohonynt. Rhaid cofio eu bod yn byw mewn byd lle mae 'selebs' o fyd chwaraeon a cherddoriaeth yn ddylanwad mawr arnyn nhw, a'r sîn gerddorol Seisnig/ Americanaidd.

Angen hefyd ddarparu rhaglenni fydd yn helpu'u haddysg a darparu rhaglenni yn yr iaith Gymraeg fydd yn cyd-fynd gyda'r cwricwlwm cenedlaethol, ond mewn ffordd ddifyr a diddorol. Ddim mor drwm â 'Tywysogion' ond ar hyd y llinellau hynny.

Byddai myw o'r mathau o raglenni sydd eisoes ar gael o fudd i blant meithrin, yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod yn gyfarwydd gyda'r iaith a'r diwylliant Cymraeg cyn cychwyn ysgol.

6. **A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn**

arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Heb wybod beth yw ffigurau gwylio darllediadau'r Cynulliad Cenedlaethol mae'n anodd rhoi barn wybodus. Fodd bynnag, os yw S4C o ddifrif ynghylch ei ymrwymiad i sianel Gymraeg i blant, ynghyd â'r ddarpariaeth aml-gyfrwng arfaethedig, Opsiwn 2 fyddai'r ffordd orau ymlaen.

Mae rhoi cyfle i blant i wylio rhaglenni teledu Cymraeg yn ganolog i'w datblygiad fel dinasyddion Cymreig. Dim ond drwy ddarparu ystod eang o raglenni y mae hyn yn bosib - nid yn unig i'r gwahanol oedrannau, ond amrywiaeth hefyd o fewn y grwpiau oedran.

7. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?**

Er mwyn bod yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf, dylai eich cynlluniau gynnwys rhaglen eang o adnoddau cyfryngol a chysylltiadau gyda sefydliadau Cymreig allweddol, fel llyfrgelloedd, yn debyg i gynllun 'RAW' y BBC.